



Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyfaol cynhyrchiol

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
A	Adolygiad o Gwricwlwm Sir Gaerfyrddin	
1	Byddwn yn parhau i lunio Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth ag ERW, ysgolion a darparwyr eraill, wedi'i fframio o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Mynd ar drywydd cyfleoedd i gysylltu strategaeth gorfforaethol ac economaidd â chynllun y cwricwlwm newydd. MF5-34 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 3)	Mawrth 2020
2	Byddwn yn asio cyfleoedd lleol i gyfoethogi ac ymestyn y cwricwlwm gyda'r bensaernïaeth genedlaethol gyda'r nod o ddatblygu Cynnig Dysgwr Sir Gaerfyrddin.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd pellach i gael llwybrau dysgu galwedigaethol a phrentisiaethau lle bo'n berthnasol yn y Sir. MF5-38	Mawrth 2020
4	Byddwn yn sicrhau bod gennym ymagwedd gydol oes at gydnerthu cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bobl agored i niwed fynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn brif amcan yng nghynllun trawsnewid gwasanaeth dydd Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth.	Mawrth 2022
B	Camau Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid	
1	Bydd angen i ni barhau i ddatblygu a gweithredu chwe elfen y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithredu'r Camau a nodwyd yn yr hunanasesiad o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid o gymharu â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, er mwyn cynyddu cyfranogiad a fydd yn cyfrannu at ganlyniadau gwasanaeth gwell o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc sy'n NEET.	Mawrth 2020
C	Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	
1	Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop <i>Cam Nesa a Chynnydd</i> .	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu cwricwlwm amgen o Ionawr 2019 yn lle'r gwasanaethau a gynigir drwy Brosiect Cynnydd.	Mawrth 2020
D	Cyffredinol	
1	Byddwn yn ad-drefnu gwasanaethau i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed o fewn maes gorchwyl Rheolwr 3ydd Haen penodedig fel rhan o strwythur mwy cydlynol.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn ymestyn ac yn datblygu Rhaglen Mwy Abl a Thalentog Seren i ddysgwyr cyn-16 oed.	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
3	Byddwn yn datblygu cyfleoedd dysgu hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) gan gynnwys Sgiliau Llythrennedd Digidol.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn osgoi'r system cyfiawnder troseddol.	Mawrth 2020
5	Byddwn yn gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu.	Mawrth 2020
6	Bydd y Gwasanaeth Cerdd yn parhau i ddatblygu cyrhaeddiad y gwasanaeth ac i adeiladu ar fentrau cwricwlwm newydd e.e. Therapi Cerdd.	Mawrth 2020
7	Byddwn yn gweithredu'r cynllun datblygu y cytunwyd arno ar gyfer y <i>Ganolfan Athrawon</i> (System Rheoli Ysgolion) i gyflwyno rhagor o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol gan gynnwys Prydau Ysgol Am Ddim, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Trafnidiaeth, Addysg Ddewisol yn y Cartref, Plant nad ydynt yn bresennol mewn Addysg, a'r Gwasanaeth Cerdd.	Mawrth 2020
8	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). <i>(PAM-009) (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 1.8% ymadawyr blwyddyn 11)</i>	1.5%
9	Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). <i>(5.1.0.2) (Hefyd yn Amcan Llesiant 5)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 4.9 % ymadawyr blwyddyn 13)</i>	3.8%
10	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal. <i>(SCC/34a)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 64.7%)</i>	64.4%
11	Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal. <i>(SCC/34b)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 61.1%)</i>	58.5%

Mesurau Llwyddiant

Nifer y rhai sy'n gadael nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) Blwyddyn 11 (PAM/009) a Blwyddyn 13 (5.1.0.2)